**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2002 Rhif 2780 (Cy.264)

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

# Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn gymwys os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i awdurdodi o dan ddarpariaethau penodedig neu yn rhinwedd y darpariaethau hynny i adennill ei gostau mewn cysylltiad â chynnal ymchwiliad o dan rai deddfiadau, sef:

(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972;

(b) Deddf Rheoleiddio Traffig 1984; ac

(c) Deddf Traenio Tir 1991.

Maent yn pennu swm safonol y gellir ei godi am bob diwrnod y mae'r ymchwiliad yn eistedd neu y mae'r person sydd wedi'i benodi i'w gynnal wrthi'n gwneud gwaith arall mewn cysylltiad ag ef. £566 yw'r swm os yw'r ymchwiliad yn agor ar y diwrnod y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym (29 Tachwedd 2002) neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2003 a £645 os yw'r ymchwiliad yn agor ar 1 Ebrill 2003 neu ar ôl hynny.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2002 No. 2780 (W.264)

# TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

# The Fees for Inquiries (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply to Wales, apply where the National Assembly for Wales is authorised under or by virtue of specified provisions to recover its costs in connection with the holding of an inquiry under certain enactments, namely:

(a) the Local Government Act 1972;

(b) the Road Traffic Regulation Act 1984; and

(c) the Land Drainage Act 1991.

They specify a standard amount which may be charged for each day on which the inquiry sits or the person appointed to hold it is otherwise engaged on work connected with it. The amount is £566 if the inquiry opens on or after the day when these Regulations come into force (29 November 2002) but before 1 April 2003 and £645 if the inquiry opens on or after 1 April 2003.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 2780 (Cy.264)

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

## Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *8 Tachwedd 2002* |
| *Yn dod i rym* | *29 Tachwedd 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 42(4) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986(**a**) i unrhyw Weinidog a awdurdodwyd, o dan y darpariaethau statudol hynny a bennir yn adran 42(1) o'r Ddeddf honno neu yn rhinwedd y darpariaethau hynny neu y mae'r adran honno yn cael ei chymhwyso iddynt(**b**), i adennill y costau a dynnwyd gan y Gweinidog mewn perthynas ag ymchwiliad, sef pwerau sy'n arferadwy bellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**c**) mewn perthynas â Chymru, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. -(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 29 Tachwedd 2002.

(a) 1986 p.63. Diddymwyd adran 42(1)(b) gan Ran I o Atodlen 3 i Ddeddf Cydgrynhoi Dŵr (Darpariaethau Ôl-ddilynol) 1991 (p.60) a diddymwyd adran 42(1)(d) gan Ran II o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42).

(b) Mae adran 69(7) o Ddeddf Traenio Tir 1991 yn darparu y bydd adran 42 o Ddeddf Cynllunio a Thai 1986 yn gymwys os bydd y naill neu'r llall o "the Ministers" wedi'i awdurdodi'n briodol i adennill y costau a dynnwyd gan y Gweinidog hwnnw fel y mae'n gymwys os yw Gweinidog wedi'i awdurdodi felly yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad a bennir yn adran 42(1) o Ddeddf 1986. Mae adran 69(5) o Ddeddf 1991 yn awdurdodi'r naill neu'r llall o "the Ministers", h.y. yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (*gweler* adran 72(1) o Ddeddf 1991 i gael y diffiniad o "the Ministers") i adennill y costau a dynnwyd gan y Gweinidog hwnnw mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Gweinidog hwnnw. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O dan ddarpariaethau Erthygl 2 ac Atodlen 1 i o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253 (Cy.5)) mae pwerau Gweinidog o dan adran 42 o Ddeddf Cynllunio a Thai 1986 yn arferadwy, mewn perthynas â Chymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ar y cyd ag unrhyw un o Weinidogion y Goron y maent yn arferadwy ganddo.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 2780 (W.264)

# TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

## The Fees for Inquiries (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2002

| | |
|---|---|
| *Made* | *8th November 2002* |
| *Coming into force* | *29th November 2002* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 42(4) of the Housing and Planning Act 1986(**a**) on any Minister authorised, under or by virtue of those statutory provisions specified in section 42(1) of that Act or to which that section is applied(**b**), to recover costs incurred by the Minister in relation to an inquiry, which powers are now exercisable by the National Assembly for Wales(**c**) in relation to Wales, hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**. -(1) These Regulations may be cited as the Fees for Inquiries (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2002 and come into force on the 29th November 2002.

(a) 1986 c.63. Section 42(1)(b) was repealed by Part I of Schedule 3 to the Water Consolidation (Consequential Provisions) Act 1991 (c.60) and section 42(1)(d) was repealed by Part II of Schedule 12 to the Local Government and Housing Act 1989 (c.42).

(b) Section 69(7) of the Land Drainage Act 1991 provides that section 42 of the Housing and Planning Act 1986 shall apply where either of "the Ministers" is duly authorised to recover costs incurred by that Minister as it applies where a Minister is so authorised by virtue of any enactment specified in section 42(1) of the 1986 Act. Section 69(5) of the 1991 Act authorises either of "the Ministers", i.e. the Secretary of State or the Minister of Agriculture, Fisheries and Food (*see* section 72(1) of the 1991 Act for the definition of "the Ministers") to recover costs incurred by that Minister in relation to an inquiry held by the Minister. The powers of the Secretary of State were transferred, in so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by Article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) Under the provisions of Article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253 (W.5)) the powers of a Minister under section 42 of the Housing and Planning Act 1986 are exercisable, in relation to Wales, by the National Assembly for Wales, concurrently with any Minister of the Crown by whom they are exercisable.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Yr ymchwiliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ymchwiliadau y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hawl i adennill ei gostau mewn perthynas â hwy o dan y darpariaethau canlynol neu yn rhinwedd y darpariaethau hynny, sef-

(a) adran 250(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**a**) (darpariaethau cyffredinol ynglŷn â chostau ymchwiliadau),

(b) adran 129(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**b**) (costau ymchwiliad o dan y Ddeddf honno),

(c) adran 69(5) o Ddeddf Traenio Tir 1991(**c**) (costau ymchwiliad o dan y Ddeddf honno),

os yw'r ymchwiliad yn agor ar y dyddiad y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym neu ar ôl hynny.

**Y swm dyddiol safonol**

**3**. Y swm dyddiol safonol a ragnodir o dan adran 42(4) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 ar gyfer ymchwiliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt yw-

(a) £566, os yw'r ymchwiliad yn agor cyn 1 Ebrill 2003; a

(b) £645, os yw'r ymchwiliad yn agor ar 1 Ebrill 2003 neu ar ôl hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**ch**)

8 Tachwedd 2002

Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol

(2) These Regulations apply to Wales.

**Inquiries to which these Regulations apply**

**2**. These Regulations apply to inquiries in relation to which the National Assembly for Wales is entitled to recover its costs under or by virtue of the following provisions, namely-

(a) section 250(4) of the Local Government Act 1972(**a**) (general provisions as to costs of inquiries),

(b) section 129(1)(d) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**b**) (costs of an inquiry under that Act),

(c) section 69(5) of the Land Drainage Act 1991(**c**) (costs of an inquiry under that Act),

if the inquiry opens on or after the date on which these Regulations come into force.

**Standard daily amount**

**3**. The standard daily amount prescribed under section 42(4) of the Housing and Planning Act 1986 for inquiries to which these Regulations apply is-

(a) if the inquiry opens before 1 April 2003, £566; and

(b) if the inquiry opens on or after 1 April 2003, £645.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**d**)

8th November 2002

*Rhodri Morgan*

First Minister of the National Assembly

(a) 1972 p.70.
(b) 1984 p.27.
(c) 1991 p.59.
(ch) 1998 p.38.

(a) 1972 c.70.
(b) 1984 c.27.
(c) 1991 c.59.
(d) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2002 Rhif 2780 (Cy.264)

## 2002 No. 2780 (W.264)

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

# TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002

The Fees for Inquiries (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2002

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090580-6

9 780110 905808

**£1.75**

W158/11/02 ON